**Cyfamod ar gyfer Ardal Genhadaeth ________________**

Yn wahanol i'r Archddyfarniad, mae hwn yn gyfle i ganolbwyntio ar eich Ardal Genhadaeth eich hunan a bod yn fwy penodol ynghylch sut rydych chi'n ei gweld yn gweithio'n ymarferol. Bydd hyn yn dod yn gytundeb gweithredol rhwng yr eglwysi o fewn yr Ardal Genhadaeth sy'n cynorthwyo Pwyllgor Gwaith yr Ardal Genhadaeth a'r Tîm Gweinidogaeth ar y Cyd i esblygu yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Dylid cytuno ar y ddogfen hon a'i chwblhau drwy ymgynghori â lleygwyr a chlerigion ar draws yr Ardal Genhadaeth, ac yn y pen draw dylai Cynhadledd yr Ardal Genhadaeth gytuno arni

***Bydd taflen atodiad 1-8 yn eich helpu chi i ffurfio eich Gweledigaeth, eich Blaenoriaethau a'ch Cynllun Datblygu***

**GWELEDIGAETH**

**'Beth ydych chi eisiau ei gyflawni o fewn eich Ardal Genhadaeth?'**

> *'Gweledigaeth' yw lle rydych chi'n teimlo mae Duw yn arwain yr Ardal Genhadaeth. Beth mae Duw yn dymuno i chi fod a'i gyflawni yn eich Ardal Genhadaeth? Fel arfer mae'n un (neu ddwy) frawddeg ar y mwyaf, sy'n ddigon eang i bawb gydnabod eu bod nhw'n gweithio tuag ati - gellir rhoi'r manylion yn yr adran dan y teitl 'Blaenoriaethau'.*

| |
|---|
| |

**BLAENORIAETHAU**

**'Beth yw eich prif nodau blaenoriaeth/meysydd gwaith ar gyfer cyflawni hyn?'**

> *Bydd eich blaenoriaethau yn newid dros amser ond beth ydyn nhw ar hyn o bryd? Mae'n demtasiwn rhoi rhestr hir o'r rhain, ond mae'n bwysig bod yn realistig - ni allwch fynd i'r afael â phopeth ar unwaith, ac o gofio am y cyfyngiadau hynny, beth sydd bwysicaf? **Rhaid i'r blaenoriaethau hyn fod yn berthnasol i'ch Gweledigaeth, uchod.***

| |
|---|
| |

**CYNLLUN DATBLYGU**

**Beth yw'r camau allweddol mae’r Ardal Genhadaeth yn cytuno i’w cwblhau? Rhowch amserlenni ac enwau’r bobl neu’r grwpiau sy’n gyfrifol.**

> *Byddwch angen Cynllun Gweithredu mwy manwl ar gyfer eich Ardal Genhadaeth mewn mannau eraill, ond dylai’r ddogfen hon gynnwys y camau gweithredu pwysicaf i’r Ardal Genhadaeth gyfan eu mabwysiadu. Rhaid i'r camau gweithredu hyn ymwneud â'r Blaenoriaethau, uchod. Dylai eich Cynllun Gweithredu gynnwys adran ar y Tîm Gweinidogaeth ar y Cyd a sut rydych chi’n bwriadu datblygu hynny fel Ardal Genhadaeth.*

| |
|---|
| |

Derbyniwyd y Cyfamod hwn (Rhannau 1 a 2) gan Gynhadledd yr Ardal Genhadaeth ar a gynhaliwyd yn

ARWEINYDD YR ARDAL GENHADAETH

Enw Llofnod Dyddiad

CADEIRYDD LLEYG Y GYNHADLEDD DDEONIAETHOL

Enw Llofnod Dyddiad .

***Atodiad ar gyfer y Cyfamod***

1. Beth yw'r prif ddylanwadau daearyddol a demograffig ar eich Ardal Genhadaeth?

2. Rhestrwch yr eglwysi yn eich Ardal Genhadaeth ac unrhyw rôl benodol y gallan nhw ymgymryd â hi e.e. man cyfarfod rheolaidd; canolfan ar gyfer gwaith ieuenctid neu blant; eglwys pererinion ac ati

3. Rhowch enghreifftiau lle mae pobl ar draws yr Ardal Genhadaeth yn dod at ei gilydd ar gyfer addoli neu unrhyw weithgaredd arall (grwpiau gweddi, astudio'r Beibl, cyrsiau disgyblaeth, Eglwys Anniben ac ati)

*4.* I ba raddau mae dirnadaeth weddigar wedi eich cynorthwyo chi i gyflawni eich Gweledigaeth?

5*.* Pa gynlluniau sydd gennych chi fel Ardal Genhadaeth ar gyfer Cenhadaeth a Thwf yn y dyfodol a beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni â'r rhain?

6. Sut caiff gweinidogaeth ar y cyd (yn lleyg ac ordeiniedig) ei chynllunio a'i datblygu? Cofiwch gynnwys ystyriaethau hyfforddi.

*7.* A fu datblygiadau a mentrau diweddar o ran cenhadaeth a gweinidogaeth? Pwy sy'n rhan o hyn a lle mae hyn yn digwydd?

8. Sut ydych chi'n meithrin ac yn herio aelodau'r eglwys a phobl y gymuned? Sut ydych chi'n bwriadu gwneud hyn yn y dyfodol?

9. Pa drefniadau a roddwyd ar waith yn weinyddol i ddelio â'r materion a ganlyn:

a. cyfathrebu cyffredinol (rhwng eglwysi, yr Ardal Genhadaeth a'r Esgobaeth, y cyfryngau ac ati)

b. cynllunio, blaenoriaethu a gwerthuso digwyddiadau a gwasanaethau

c. Cyllid yr Ardal Genhadaeth

| |
|---|
| |

d Defnyddio adeiladau'r eglwys, ei heiddo a'i mynwentydd, a gofalu amdanyn nhw

| |
|---|
| |